



# **ADRODDIAD GWRTHWYNEBU**

**Cynnig i gau Ysgol Llanfynydd o 31 Awst 2016  
gyda'r disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion  
cyfagos yn amodol ar ddewis rhieni**

**MAWRTH 2016**

**Os bydd angen copi caled o'r adroddiad hwn arnoch anfonwch neges e-bost  
i [21stcenturyschools@flintshire.gov.uk](mailto:21stcenturyschools@flintshire.gov.uk) gyda'ch enw a'ch cyfeiriad post.  
Dynodwch pa un ai yn Gymraeg, yn Saesneg ynteu'r ddwy iaith yr hoffech  
gael y ddogfen.**

## Cyngor Sir y Fflint – Addysg ac Ieuenctid

### Adroddiad Gwrthwynebu

#### Cynnig i gau Ysgol Llanfynydd o 31 Awst 2016 gyda'r disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion cyfagos yn amodol ar ddewis rhieni

#### Diben

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â'r gofynion dan adran 49 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol yw hwn – a gaiff ei adnabod fel arall fel “yr Adroddiad Gwrthwynebu”.

#### Cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori ffurfiol a chyhoeddi adroddiad ymgynghori, penderfynodd y Cabinet fwrw ymlaen a chyhoeddi'r cynnig trwy hysbysiad statudol am 28 diwrnod o ddydd Gwener 29 Ionawr 2016 tan ddydd Gwener 26 Chwefror 2016.

Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Cyhoeddwyd yr hysbysiad ar wefan Cyngor Sir y Fflint ac fe'i gosodwyd ym mhrif fynedfa Ysgol Llanfynydd. Cafodd pob ysgol gopiâu electronig o'r hysbysiad ynghyd â manylion sut i gael copiâu caled o'r hysbysiad.

Yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, gafwyd 78 o wrthwynebiadau mewn perthynas â'r cynnig i gau Ysgol Llanfynydd o 31 Awst 2016 gyda disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion cyfagos.

Cafodd yr ohebiaeth a gafwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu ei chyflwyno mewn nifer o ddulliau ac roedd yn cynnwys:

75 neges e-bost,  
3 llythyr ac

O'r 78 gwrthwynebiad a gafwyd, roedd problemau gyda'r gwrthwynebiadau canlynol

14 wedi'u llofnodi ond dim cyfeiriad arnynt

#### **Ym mha ardaloedd y mae'r gwrthwynebwyr yn byw?**


Llanfynydd	32
Ffrith	11
Cymau	5
Arall	3
Sir y Fflint	3

Brymbo	2
Yr Hob	2
New Brighton, Wreccsam	2
Drury	1
Gresffordd	1
Higher Kinnerton	1
Pontblyddyn	1
<b>CYFANSWM</b>	<b>63</b>

\* Mae'r ffigur 63 yn adlewyrchu ymatebwyr sydd naill ai'n byw yn yr un cyfeiriad, neu wedi rhoi cyfeiriad anghyflawn neu aneglur neu heb roi cyfeiriad

### Q8 In what areas do the objectors reside?

Answered: 63 Skipped: 15



Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2013) mae'r Adroddiad Gwrthwynebu hwn ar gael i randdeiliaid trwy ddolen mewn neges e-bost ac fe'i cyhoeddir yn electronig hefyd ar wefan Cyngor Sir y Fflint yn:

[www.flintshire.gov.uk/schoolmodernisation](http://www.flintshire.gov.uk/schoolmodernisation)

I ofyn am gopi (papur) caled o'r ddogfen hon anfonwch neges e-bost i [21stcenturyschools@flintshire.gov.uk](mailto:21stcenturyschools@flintshire.gov.uk), neu ysgrifennwch at y Tîm Moderneiddio Ysgolion, Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6ND, neu cysylltwch â'r tîm ar 01352 704015 neu 704134.

	<b>Pwyntiau a Godwyd (yn nhrefn y % uchaf)</b>	<b>Ymateb yr Awdurdod Lleol</b>	<b>Nifer yr ymatebion ysgrifenedig a gododd y pwynt</b>	<b>Y % o'r ymatebion a gododd y pwynt</b>
<b>1</b>	<p><b>Mae'r Ddogfen Ymgynghori'n Ddiffygiol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ychydig iawn o fudd fyddai cau'r ysgol yn ei ddwyn i'r Cyngor</li> <li>• Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer cau'r ysgol yn ddiffygiol</li> <li>• Mae nifer y lleoedd yn yr ysgol yn seiliedig ar 2007 gan ddatgan bod lle i 80 disgybl a dylai fod yn seiliedig ar 2011 gan ddatgan bod lle i 64 disgybl</li> <li>• Roedd yr adroddiad diwethaf gan Estyn yn 2009. Ni chafodd yr ysgol arolygiad mwy diweddar i roi cymorth gyda'r broses benderfynu</li> <li>• Mae'r ddogfen yn cynnwys gogwydd trwm tuag at gau'r ysgol</li> <li>• Mae Cyngor Sir y Fflint yn datgan bod 1967 o leoedd gwag yn Sir y Fflint. Mae hyn yn cynnwys ysgolion uwchradd, sy'n orliwiad annheg o'u plaid hwy</li> <li>• Mae'r sylwadau gan Estyn yn y ddogfen ymgynghori'n annerbyniol gan eu bod yn seilio'u barn ar adroddiad 6 blwydd oed</li> <li>• Nid yw'r cynigion yn ystyried anghenion y boblogaeth wledig yn y dyfodol ac mae hyn yn achosi anghydraddoldeb o ran y dewis i deuluoedd</li> <li>• Nid yw'r ddogfen yn cynnwys genedigaethau ers 2013</li> </ul>	<p>Mae'r Cyngor yn fodlon bod y canllawiau cyhoeddi a'r gofynion yn y Cod wedi cael eu hateb. Roedd y broses ymgynghori a'r ddogfennaeth yn dilyn canllawiau rheoleiddiol a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2013.</p> <p>Defnyddiodd y Cyngor y data gwiriedig mwyaf diweddar ar adeg llunio'r dogfennau ymgynghori:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Daw niferoedd y disgyblion yn yr ysgol (er enghraifft Anghenion Dysgu Ychwanegol, Saesneg fel Iaith Ychwanegol a Gweithredu gan yr Ysgol/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy/ar ddatganiad) o ddatganiadau data'r ysgol ei hun (Mis Medi neu fis Ionawr)</li> <li>• Daw data Estyn o'r arolygiad diwethaf o'r ysgol gan Estyn. Bydd amseriad arolygiadau'n dibynnu ar gylch arolygu Estyn ei hun ac mae'r tu hwnt i reolaeth y Cyngor</li> <li>• Mae data o system gategoreiddio genedlaethol Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ddatganiadau'r ysgol. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r data mwyaf cyfoes ar adeg llunio'r ddogfen o wefan Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn diweddarau ei chronfa ddata genedlaethol yn flynyddol.</li> </ul>	<b>66</b>	<b>84.61%</b>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid oes unrhyw sôn am y panel solari ffotofoltaig ar y to sy'n cynhyrchu incwm i Gyngor Sir y Fflint, ac a fyddai'n cael ei golli pe bai'r safle'n cael ei werthu.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Caiff data GwE (Y Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol) ei fwydo i mewn i system gategoreiddio genedlaethol Llywodraeth Cymru.</li> <li>Caiff ffurflenni Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru eu gwirio gan Benaethiaid; mae hyn yn darparu Capasiti a Nifer Derbyn yr ysgol. Yn 2006 fe ddiweddarwyd y canllawiau ar gyfer Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru i ddarparu mwy o wybodaeth ar gyfer Cyngorau, ond fe arhosodd y dull a ddefnyddir i gyfrifo capasiti ysgol yn ddigyfnewid.</li> </ul> <p>Adolygwyd capasiti yn 2011 o ganlyniad i newidiadau yng nghynllun yr ysgol. Fodd bynnag, byddai newidiadau i'r capasiti yn Ysgol Llanfynydd yn golygu y byddai capasiti'r ysgol yn gostwng mwy na 10% o'r nifer derbyn cyfredol. Byddai newidiadau o'r math hwn yn gofyn am ymgynghori statudol a rhoddwyd gwybod i'r Pennaeth yn unol â hynny. Cytunwyd bod y capasiti'n aros fel y cytunwyd yn flaenorol (llofnodwyd gan y pennaeth yn 2007) Gan weithio gyda llai o gapasiti damcaniaethol, byddai gan yr ysgol tua 30% o leoedd heb eu llenwi o hyd, a byddai hyn yn dal i sbarduno adolygiad yn unol â pholisi Moderneiddio Cyngor yr Ysgol a hefyd Cod Trefniadaeth yr Ysgol.</p>		
--	--	---	--	--

		<p>Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol bob blwyddyn i'r Cyngor fel yr Awdurdod Derbyn gwblhau cyfnod ymgynghori gyda'r holl ysgolion i i adolygu eu capasiti a'u nifer derbyn a'u trefniadau derbyn.</p> <p>Nid yw Pennaeth Ysgol Llanfynydd wedi cyflwyno unrhyw sylwadau ffurfiol ers 2011 ynghylch capasiti a nifer derbyn yr ysgol.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Mae lleoedd sydd heb eu llenwi'n cael eu cofnodi gan Lywodraeth Cymru; mae'r Cyngor yn darparu ei ddatganiadau ar gyfer Llywodraeth Cymru yn flynyddol; maent hefyd yn seiliedig ar ddatganiadau swyddogol yr ysgolion.</li><li>• Darperir Gwybodaeth am Enedigaethau fesul ardal gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.</li><li>• Mae amcanestyniadau disgyblion yn gyson â methodoleg Awdurdodau cyfagos yng Ngogledd Cymru.</li><li>• Mae gwybodaeth am ddatblygu tai'n seiliedig ar geisiadau gwirioneddol presennol i adeiladu tai a ddarperir gan yr Adran Gynllunio.</li><li>• Caiff y niferoedd disgyblion posibl a allai gael eu hachosi gan ddatblygiadau tai newydd eu cyfrifo gan ddefnyddio fformwla a ddarparwyd gan Awdurdod partneru (CBS Conwy) sy'n deillio'r fformwla hwn yn seiliedig ar ddatganiadau'r cyfrifiad diweddaraf.</li><li>• Caiff cymarebau rhwng disgyblion ac athrawon eu darparu gan ystadegau sydd ar gael yn gyhoeddus ynghylch ysgol (<a href="http://mylocalschool.wales.gov.uk">http://mylocalschool.wales.gov.uk</a>), a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ac sy'n cael eu diweddarau'n flynyddol.</li></ul>		
--	--	--	--	--

		<ul style="list-style-type: none"><li>• Caiff cymarebau rhwng disgyblion ac athrawon eu darparu gan ystadegau sydd ar gael yn gyhoeddus ynghylch ysgol (<a href="http://mylocalschool.wales.gov.uk">http://mylocalschool.wales.gov.uk</a>),</li><li>• Daw gwybodaeth am Ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen a Phynciau Craidd o ystadegau sydd ar gael yn gyhoeddus ynghylch ysgol (<a href="http://mylocalschool.wales.gov.uk">http://mylocalschool.wales.gov.uk</a>), a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ac sy'n cael eu diweddarau'n flynyddol.</li><li>• Caiff gwybodaeth am gyflwr adeilad yr ysgol ei darparu gan gwmni allanol sy'n cymharu cyflwr adeilad yr ysgol â'r 'Bwletin Adeiladau ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd'.</li><li>• Caiff gwybodaeth am waith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni ei darparu gan yr ymgynghorwyr annibynnol Property.</li></ul>		
--	--	--	--	--

		<p>Caiff Arolygon o gyflwr adeiladau eu cwblhau mewn cylch 5 mlynedd. Mae'r Codau Blaenoriaeth [diffiniad] fel a ganlyn:-</p> <p>Blaenoriaeth 1: Gwaith brys yn ofynnol o fewn blwyddyn</p> <p>Blaenoriaeth 2: Gwaith hanfodol yn ofynnol o fewn 2 flynedd</p> <p>Blaenoriaeth 3: Gwaith dymunol [tybiedig] yn ofynnol o fewn 3 i 5 mlynedd</p> <p>Blaenoriaeth 4: Gwaith tymor hir [tybiedig] yn ofynnol y tu allan i'r cyfnod [cylch] 5 mlynedd</p> <p>Mae'r elfen Cyfanswm 1 - 3 yn diffinio buddsoddiad ariannol pum mlynedd ac mae elfen 4 yn diffinio buddsoddiad ariannol chwech – ddeng mlynedd.</p> <p>Fel a amlygwyd yn yr Adroddiad Ymgynghori mae llechi'n llithro ar do Ysgol Llanfynydd oherwydd lludded [ffitiadau] hoelion sy'n gysylltiedig â'r prif do goleddf deuol. Hefyd, mae'r hen nenfwd dellt a phlaster gwreiddiol o dan y to, a byddai angen newid hwn hefyd.</p> <p>Cafodd yr eitemau o waith eu costio gan yr Ymgynghorydd ac maent yn cynnwys gwaith rhagarweiniol, llafur, cyfarpar a deunyddiau a.y.b.</p> <p>Mae'r costau hyn yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan y Gwasanaeth Gwybodaeth Costau Adeiladu a ddarperir gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig fel y prif ddarparwr gwybodaeth am gostau a phrisiau ym meysydd adeiladu a chynnal a chadw. Mae'r costau hyn [Cyfraddau am Bob Uned] yn bresennol o fewn y meddalwedd cyflwr adeiladau fel ffigwr diofyn ac yn cael eu diwygio/ diweddarau fel y bo angen gan yr Ymgynghorydd.</p> <p>Nid yw'r costiadau ar gyfer y gyllideb yn cynnwys TAW, maent yn cael eu diweddarau'n flynyddol [gan ddefnyddio mynegeion chwyddiant] ac yn cael eu hadolygu ar ôl cwblhau gwaith.</p>		
--	--	--	--	--



		<ul style="list-style-type: none"> <li>•Caiff gwybodaeth am addasrwydd ysgolion ei darparu o arolygon addasrwydd a gaiff eu cynnal yn annibynnol yn unol â chanllawiau Rheoli Asedau'r Adran Addysg a Chyflogaeth a'u hadolygu gan y Cyngor a'u diwygio os oes gwaith wedi cael ei gwblhau mewn ysgolion ar ôl yr arolwg cychwynnol.</li> <li>• Caiff gwaith ar gyllidebau ysgolion ei wneud gan ddefnyddio fformwla y cytunwyd arno megis yn y Fforwm Cyllideb Ysgolion. Daw data ynghylch y gost am bob disgybl o ddatganiadau'r Awdurdod ar y gyllideb dan adran 52.</li> <li>• Caiff gwybodaeth am bellteroedd teithio rhwng safleoedd ysgolion ei darparu gan system fapio Cyngor Sir y Fflint, Route Finder 3.41.</li> <li>• Caiff costau cludiant eu darparu gan yr Uned Cludiant Integredig sy'n gweinyddu contractau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol.</li> </ul> <p>Mae'r Cyngor wedi dangos yn ei ddogfennau ymgynghori bod capasiti digonol o fewn y rhwydwaith ysgolion lleol i derbyn disgyblion o Ysgol Llanfynydd os bydd yn cau, ac mae'r farn hon yn cael ei chadarnhau gan Estyn. Fodd bynnag, os bydd angen lleoedd ychwanegol gellir sefydlu'r rhain yn Ysgol Parc y Llan, Treuddyn naill ai heb unrhyw gost neu am gost isel iawn.</p> <p>Mae'r ddogfen ymgynghori'n cynnwys cyfeiriad at y ffaith bod gan y portffolio ysgolion cynradd 1967 (neu 17.15%) o leoedd gwag (yn seiliedig ar CYBLD Ionawr 2015). Dim ond ysgolion cynradd y mae'r ffigur hwn ar gyfer lleoedd gwag yn eu cynnwys ac nid yw'n cynnwys y sector uwchradd.</p> <p>Mae gan y portffolio ysgolion uwchradd 2206 (neu 20.37%) o leoedd heb eu llenwi (yn seiliedig ar CYBLD 2015).</p>		
--	--	---	--	--

Nid yw'r Cyngor yn gallu cynnal yr holl ysgolion yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni yn enwedig lle mae nifer sylweddol o leoedd gwag o fewn y system. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai cydbwysedd o hyd o ran y ddarpariaeth yn yr ardal, gan gynnwys darpariaeth wledig, drefol, darpariaeth ar gyfer ffydd ac iaith, a chan gynnal dewis rhieni.

Cafodd yr wybodaeth am y gyfradd genedigaethau ei darparu trwy wybodaeth o'r Cyfrifiad gan y Tîm Gwybodaeth Rheoli Ysgolion. Nid oedd gwybodaeth am enedigaethau ar gael ar ôl 2013 oherwydd amseriad argaeledd data'r cyfrifiad. Ers cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori daeth gwybodaeth am enedigaethau yn 2014 i fod ar gael, ac mae'r cyfraddau genedigaethau ar gyfer yr ardal wedi'u cynnwys isod. Nid oes cynnydd sylweddol mewn genedigaethau yn ardal Llanfynydd a'r cylch. Mae'r gyfradd genedigaethau'n aros yn ddigyfnewid yn yr ardal.

Ward	2014
Caergwrle	15
Higher Kinnerton	11
Yr Hob	35
Leeswood (Wedi'i haneru rhwng SPPA Yr Wyddgrug/Yr Hob)	8
Llanfynydd	16
Penyffordd	32
Treuddyn	14
<b>CYFANSWM</b>	<b>130</b>

		<p>Mae'r ffrwd incwm a gaiff Cyngor Sir y Fflint drwy'r panel solari ffotovoltaig ar y to yn fach iawn (tua £130- £150 y flwyddyn). Pe bai'r ysgol yn cau, mae'n debygol y byddai'r cyfarpar yn cael ei drosglwyddo gyda'r adeilad, neu gellid ei osod yn rhywle arall.</p>		
--	--	---	--	--

2	<p><b>Effaith ar y Gymuned</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai cau'r ysgol yn cael effaith negyddol tu hwnt ar y gymuned</li> <li>• Mae Llanfynydd yn y chwarterl isaf o ran mynediad at wasanaethau ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru</li> <li>• Mae'r ganolfan gymunedol, y ganolfan farchogaeth a'r ysgol oll yn destun balchder lleol ac yn cyfrannu at ysbryd cymunedol</li> <li>• Mae'r ysgol wrth galon y gymuned</li> <li>• Yr ysgol yw'r unig gyswilt i nifer o bobl â'u cymdogion, â chymorth a chyfluoedd i gymdeithasu yn y gymuned</li> <li>• Mae'r ysgol yn helpu i greu cwsmeriaid ar gyfer busnesau lleol</li> <li>• Mae'r bygythiad i gau'r ysgol wedi gwneud i ni feddwl o ddifrif am symud o'r ardal</li> <li>• Heb yr ysgol bydd holl gymeriad y 'Pentref Taclusaf' yn Sir y Fflint yn cael ei ddiraddio go iawn</li> <li>• Bydd yr henoed sy'n byw yn y byngalos yn colli'r 'ymwelwyr' ychwanegol a sŵn chwarae'r plant</li> <li>• Ni fydd lleoliad pwrpasol ar gyfer digwyddiadau cymunedol ychwaith</li> <li>• Byddai cau'r ysgol yn cael effaith ar economi'r ardal</li> <li>• Fyddai'r pentref ddim yr un fath</li> <li>• Cafodd yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ei gwblhau gan y Pennaeth nad oedd yn hanu o'r ardal ac a oedd wrthi'n ymgeisio am swydd arall ar y pryd</li> </ul> <p><b>Adborth gan Blant a Phobl Ifanc</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni fyddai'r pentref yr un fath pe bai'r ysgol yn cau</li> </ul>	<p>Mae'r Cyngor yn cydnabod, lle cynigir cau ysgol, y bydd hynny'n cael rhyw effaith ar y gymuned leol, er bod defnydd y gymuned o'r ysgol yn gymharol isel.</p> <p>Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn awgrymu y dylai'r Cyngor gwblhau Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned i fesur yr effaith a sut y gellir lleihau neu negyddu'r effaith. Mae'r Cyngor yn fodlon ei fod wedi bodloni'r gofynion ymgynghori a chyhoeddi statudol yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion.</p> <p>Cydnabyddir bod gan yr ysgol rôl bwysig yn y gymuned ehangach. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu byddai cyfle i ehangu cysylltiadau ag ysgolion eraill. Oherwydd agosrwydd yr ysgolion eraill at bentref Llanfynydd, byddai'r Cyngor yn ceisio cynorthwyo Cyrff Llywodraethu a Chymdeithasau Rhieni ac Athrawon ysgolion eraill i feithrin cysylltiadau â chymuned ehangach Llanfynydd. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r ysgol a'r gymuned i liniaru problemau lle y bo'n bosibl.</p> <p>Mae Llanfynydd yn y chwarterl uchaf ar gyfer mynediad at wasanaethau ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, ac nid yn y chwarterl isaf.</p> <p>Nid oes cynlluniau gan y Cyngor ar gyfer y safle, ac ni fydd yn ystyried dyfodol y safle nes bod dyfodol yr ysgol wedi cael ei benderfynu.</p>	63	80.76%
---	---	---	----	--------

		<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon ynghylch yr effaith ar y gymuned. Fodd bynnag, mae nifer o bentrefi yn Sir y Fflint, ac yn ehangach, sydd heb ysgol bentref ond sy'n dal i fod â chymuned ffyniannus ac ymgysylltiol. Os bydd rhieni/gofalwyr am i'w plant gael mynediad at ddarpariaeth mewn ysgol bentref mae ysgolion yn yr ardal sydd â lleoedd gwag.</p>		
--	--	--	--	--

<p><b>3</b></p>	<p><b>Cryfderau'r ysgol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae cryn dipyn o arian wedi cael ei fuddsoddi yn yr ysgol</li> <li>• Mae Estyn wedi cydnabod bod 'y Cwricwlwm Cymreig a datblygiad dwyieithog disgyblion yn cael lle amlwg ym mywyd yr ysgol'. A yw ysgolion eraill yn gallu ateb y gofyniad yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i'r un graddau?</li> <li>• Yn 2004/2005 fe wariodd yr Awdurdod swm sylweddol ar Ystafell Wlyb – mae hon yn nodwedd unigryw ac yn golygu mai dyma'r unig ysgol sydd ar gael i ddiwallu anghenion disgyblion anabl ac arnynt angen ystafell wlyb gyda chyfleusterau ychwanegol</li> <li>• Nid oes llawer o ddisgyblion wedi gadael yr ysgol yn ystod y broses ac mae'r athrawon wedi parhau i fod yn broffesiynol iawn</li> <li>• Mae'n ysgol wych</li> <li>• Mae'n ysgol dda, sy'n llwyddo: mae'n ysgol hapus iawn</li> <li>• Mae'r plant yn cael eu meithrin a'u galluogi i ddatblygu fel unigolion</li> <li>• Roedd gallu tyfu a dysgu mewn ysgol mor fach a chlòs yn gwneud byd o les i'm hyder</li> <li>• Mae Ysgol Llanfynydd yn ysgol wledig fechan ragorol a werthfawrogir yn fawr ac a ddylai gael ei chefnogi a'i hehangu</li> <li>• Nid yw'r un peth yn gweddu i bawb mewn termau addysgol ac mae angen amrywiaeth eang o ysgolion o wahanol faint a math</li> <li>• Mae cysylltiadau clòs rhwng yr ysgol a'r eglwys leol – a yw'r ysgolion eraill wedi datblygu'r un cysylltiadau?</li> <li>• Mae gan yr ysgol staff bendigedig</li> <li>• Gan ei bod yn fach mae pawb yn cael llawer o sylw</li> <li>• Mae bwlio'n llai cyffredin a gellir ei ddatrys yn gynt</li> <li>• Mae'r hyn rwyf wedi'i gyflawni wedi bod yn bosibl oherwydd yr addysg benigamp a'r anogaeth ym myd chwaraeon a gefais</li> <li>• Mae ymchwil wedi dangos bod dosbarthiadau bach/canolig</li> </ul>	<p>Mae'r ymatebion cadarnhaol gan ymgylgoreion ynghylch Ysgol Llanfynydd wedi'u nodi.</p> <p>Mae adolygu dyfodol unrhyw ysgol yn ddadleuol ac yn gynhyrfiol. Mae gan ddisgyblion, rhieni, gofalwyr ac athrawon, yn rhai blaenorol a phresennol, gysylltiadau cryf ag ysgolion lleol fel rhan o'u hanesion bywyd eu hunain. Mae'r Cyngor yn wynebu her i daro cydbwysedd rhwng sensitifrwydd teimlad y gymuned ar y naill law, a darparu addysg o safon uchel y gellir ei chynnal a'i fforddio ar y llaw arall. Ni all y Cyngor osgoi gwneud penderfyniadau ar gyfer y dyfodol sydd er lles disgyblion a myfyrwyr.</p> <p>Ysgol Gynradd Gymunedol cyfrwng Saesneg yw Ysgol Llanfynydd, ac addysgir Cymraeg fel ail iaith. Mae'r cynnig yn rhoi opsiwn i rieni/gofalwyr sy'n golygu y bydd eu plant yn cael addysg cyfrwng Saesneg gyda Chymraeg yn cael ei haddysgu iddynt fel ail iaith. Mae hyn yn debyg i'r sefyllfa a'r mynediad ar gyfer disgyblion ar hyn o bryd.</p> <p>Mae'r cynnig presennol yn darparu mynediad ac yn cynnal dewis rhieni ar gyfer cyfrwng iaith.</p> <p>Mae'r cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer y Cyfnod</p>	<p><b>54</b></p>	<p><b>70.51%</b></p>
-----------------	--	--	------------------	----------------------

**Adborth gan Blant a Phobl Ifanc**

- Mae Ysgol Llanfynydd yn ysgol ardderchog
- Mae'r staff yn gofalu amdanom ac yn ein dysgu'n dda
- Rydym yn cael addysg dda
- Rydw i'n hapus iawn yn Ysgol Llanfynydd
- Rydw i wedi gwneud llawer o ffrindiau hyfryd o oedran cynnar
- Gan ei bod yn ysgol fach rydych yn cael llawer o sylw

Sylfaen yn cynnwys Datblygu'r Gymraeg (Cymraeg fel ail iaith). Dylai disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ddysgu defnyddio'r Gymraeg a chyfleu eu hanghenion yn Gymraeg hyd eithaf eu gallu. Dylid annog disgyblion i wneud hynny a dylent ddod i gysylltiad yn gynyddol â'r Gymraeg. Yng Nghyfnod Allweddol 2 dylai disgyblion adeiladu ar y sgiliau hyn. Mae'r holl ysgolion yng Nghymru'n dilyn y drefn hon.

Nodir bod gan Ysgol Parc Y Llan, Treuddyn hanes llwyddiannus yn yr Eisteddfod dros y 3 blynedd ddiwethaf fel ysgol lle addysgir Cymraeg fel ail iaith a'i bod yn cynnal Eisteddfod Treuddyn a fynychir gan Ysgol Llanfynydd yn flynyddol.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddisgyblion yn Ysgol Llanfynydd ac arnynt angen cyfleusterau newid arbenigol.

Ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg, ac nid ysgol enwadol, yw Llanfynydd. Ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Saesneg, ac nid ysgolion enwadol, yw'r ysgolion eraill hefyd. Mae'r Cyngor yn cydnabod y cysylltiadau clos sydd gan yr ysgol â'r eglwys. Yn sgîl agosrwydd yr ysgolion eraill at bentref Llanfynydd, byddai'r Cyngor yn ceisio cynorthwyo Cyrff Llywodraethu a Chymdeithasau Rhieni ac Athrawon yr ysgolion eraill i feithrin cysylltiadau â chymuned ehangach Llanfynydd. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r ysgol a'r gymuned i liniaru problemau lle y bo'n bosibl.

4	<p><b>Costiadau am Atgyweirio'r To</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid oes angen trwsio'r to</li> <li>• Mae'r costau o £80,000 i drwsio'r to i'w gweld yn wallgof</li> <li>• Nid yw 80,000 yn gost bendant; cost bosibl ar ryw adeg yn y dyfodol ydyw</li> <li>• Mae arweiniad Sir y Fflint ynghylch trefnu gwaith adeiladu yn cynghori pobl i gael tri dyfynbris am waith adeiladu gan gwmnïau dibynadwy cyn cael gwneud unrhyw waith adeiladu</li> </ul> <p><b>Adborth gan Blant a Phobl Ifanc</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r cyngor yn dweud fod angen gwneud llawer o waith adeiladu yn ein hysgol ond mae tad fy ffrind yn adeiladwr ac mae o'n meddwl fod yr adeilad yn iawn ac na fyddai'n costio llawer i'w drwsio.</li> </ul>	<p>Caiff yr arolygon cyflwr eu cwblhau gan syrfewyr annibynnol, a gomisiynir gan y Cyngor. Maent yn cynnal arolygon o ysgolion mewn cylch pum mlynedd yn unol â chanllawiau cenedlaethol ac yn darparu blaenoriaethau cynnal a chadw ar gyfer y Cyngor. Cafodd y gwaith i atgyweirio'r to ei adnabod fel blaenoriaeth, felly cafodd gwaith atgyweirio brys ei raglennu yn unol â hynny.</p> <p>Fel a amlygwyd yn yr Adroddiad Ymgynghori mae llechi'n llithro ar do Ysgol Llanfynydd oherwydd lludded [ffitiadau] hoelion sy'n gysylltiedig â'r prif do goleddf deuil. Hefyd, mae'r hen nenfwd dellt a phlaster gwreiddiol o dan y to, a byddai angen newid hwn hefyd.</p> <p>Cafodd yr eitemau o waith eu costio gan yr Ymgynghorydd ac maent yn cynnwys gwaith rhagarweiniol, llafur, cyfarpar a deunyddiau a.y.b. Mae'r costau hyn yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan y Gwasanaeth Gwybodaeth Costau Adeiladu a ddarperir gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig [RICS] fel y prif ddarparwr gwybodaeth am gostau a phrisiau ym meysydd adeiladu a chynnal a chadw. Mae'r costau hyn [Cyfraddau am Bob Uned] yn bresennol o fewn y meddalwedd cyflwr adeiladau fel ffigwr diodyn ac yn cael eu diwygio/diweddaru fel y bo angen gan yr Ymgynghorydd. Nid yw'r costiadau ar gyfer y gyllideb yn cynnwys TAW, maent yn cael eu diweddarau'n flynyddol [gan ddefnyddio mynegeion chwyddiant] ac yn cael eu hadolygu ar ôl cwblhau gwaith.</p>	51	65.38%
---	---	--	----	--------



		<p>Mae'r Cyngor yn rheoli'r broses o gaffael ei holl nwyddau, gwasanaethau a gwaith, yn gwbl unol â'i Reolau Gweithdrefnau Contract. Mae'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau yn cynnwys yr amcanion allweddol canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Sicrhau bod y Cyngor yn cael gwerth am arian ac yn cyflawni'r gwerth gorau fel a ddiffinnir yn adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999;</li><li>• Sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â chyfraith y DU ac Ewrop mewn perthynas â chaffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith;</li><li>• Sefydlu gweithdrefnau caffael a ddylai, pan gânt eu dilyn, amddiffyn aelodau a swyddogion y Cyngor rhag unrhyw honiad o weithredu'n annheg neu'n anghyfreithlon.</li><li>• Sicrhau bod tegwch a thryloywder wastad yn flaenllaw mewn gweithgarwch caffael.</li></ul> <p>Caiff prosesau'r Cyngor i gaffael contractau eu rheoli gan ddeddfwriaeth fanwl ar lefel Ewrop a'r DU. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i holl weithgarwch caffael a chontractio'r Cyngor gael ei gyflawni mewn modd tryloyw, teg ac anwahaniaethol.</p>		
--	--	--	--	--

5	<p><b>Ysgolion Eraill</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Galw am leoedd mewn ysgolion yn yr ardal na fydd Abermorddu yn arbennig yn gallu ei ateb</li> <li>Mae mwy o geisiadau nag sydd o leoedd yn yr ardal ar hyn o bryd</li> <li>Bydd yr awgrym i gynyddu capasiti Ysgol Parc y Llan i wneud lle i ddisgyblion yn llenwi'r holl leoedd sbâr yn yr ysgolion lleol, gan adael dim lle ar gyfer unrhyw ddisgyblion ychwanegol yn yr ardal o ganlyniad i ddatblygiadau tai newydd</li> <li>Rhieni sydd wedi bod yn ceisio dod o hyd i leoedd i'w plant</li> <li>Bydd ffiniau cynghorau'n newid yn y dyfodol agos iawn ac felly nid yw'n bosibl rhagweld beth fydd anghenion addysgol y Cyngor newydd yn y dyfodol a dylid gadael unrhyw benderfyniad nes bydd y rhain yn glir</li> <li>Mae Abermorddu wedi cael ei gosod yn y categori Oren ar y wefan FyYsgolLeol yn ddiweddar, felly byddai'n cynnig addysg sy'n llai da.</li> <li>Bydd safonau yn Ysgol Parc Y Llan yn dirywio wrth i'r gymhareb rhwng disgyblion a staff gynyddu gan olygu bod llai o adnoddau i bob disgybl</li> <li>Yn y pen draw bydd disgyblion yn cael eu haddysgu mewn cabanau</li> <li>Nid yw'r un o'r ysgolion eraill yn gallu cynnig safonau addysgol tebyg neu uwch</li> <li>Mae rhieni'n cael problemau gosod siblingiaid gyda'i gilydd</li> </ul>	<p>Barn y Cyngor yw bod digon o gapasiti yn y rhwydwaith ysgolion lleol i dderbyn disgyblion o Ysgol Llanfynydd os bydd yn cau.</p> <p>Byddir yn ymdrin â phob cais i drosglwyddo i ysgol arall yn unol â pholisi derbyn y Cyngor a'r Cod Derbyn i Ysgolion. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i gadw siblingiaid gyda'i gilydd ac mae rhywfaint o ddisgresiwn dan y Cod Derbyn i dderbyn disgyblion i grŵp blwyddyn er ei fod yn wag os bodlonir rhai amodau. Mae'n rhaid ymdrin â phob cais yn ôl ei rinweddau gan ystyried amgylchiadau'r ysgol, megis y nifer ym mhob grŵp blwyddyn, capasiti'r ysgol, trefn dosbarthiadau a.y.b. Ni all y Cyngor gadw lleoedd ar gyfer unrhyw ddisgyblion a allai symud i ardal gan nad yw hyn yn gyfreithlon.</p> <p>Bydd cynigion i foderneiddio ysgolion yn parhau i gael eu hadolygu yn ystod unrhyw gamau i uno Awdurdodau Lleol yn y dyfodol.</p> <p>Fel rhan o'u hymateb i'r ddogfen ymgynghori daeth Estyn i'r casgliad ei bod yn debygol y bydd y cynnydd o leiaf yn cynnal y safonau addysg presennol yn yr ardal yn seiliedig ar yr wybodaeth a'r data a ddarparwyd yn y ddogfen ymgynghori, a oedd yn dangos bod deilliannau disgyblion ym mhob un o'r pedair ysgol arall yn dda ar hyn o bryd, ac y barnwyd fod gan bob un ohonynt y gallu angenrheidiol i wella ymhellach.</p>	41	52.56%
---	--	---	----	--------

		<p>Fe gynhwysodd y Cyngor amrywiaeth o ddata a gwybodaeth ystadegol yn y ddogfen ymgynghori mewn perthynas â deilliannau a safonau yn Ysgol Llanfynydd a'r ysgolion eraill. Roedd hyn yn cynnwys data ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.</p> <p>Mae'r ddogfen ymgynghori'n nodi hefyd, lle mae cohortau'n fach, megis yn Ysgol Llanfynydd, y dylid trin deilliannau â phwyll. Ar ben hynny, mae Estyn yn datgan bod y cynigydd yn darparu gwybodaeth fanwl am allu pob un o'r ysgolion eraill i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys yn y Cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnod Allweddol 2.</p> <p>Darparodd y Cyngor ystod o ddata cyd-destunol ynghylch Ysgol Llanfynydd a'r ysgolion amgen arfaethedig. Roedd data pellach ar gael ynghylch ysgolion amgen eraill posibl o fewn yr ardal ar gyfer cymharu. Roedd hyn yn cynnwys data yn ymwneud â charfannau a aseswyd yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, adroddiadau Estyn a sylwebaeth ynglŷn â darpariaeth ym mhob ysgol yn amodol ar y cynnig.</p>		

6	<p><b>Canlyniadau a llwyddiant yr ysgol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni ellir amau safon yr addysgu</li> <li>• Mae'r canlyniadau academaidd yn gyson yn rhagorol</li> <li>• Mae'n ysgol sy'n llwyddo</li> </ul>	<p>Mae'r ymatebion cadarnhaol oddi wrth ymgynghoreion ynghylch Ysgol Llanfynydd wedi'u nodi.</p> <p>Ym maen y Cyngor ac ym marn Estyn, os bydd y cynnig presennol yn cael ei weithredu, byddai gan ddisgyblion fynediad at ddarpariaeth addysgol o safon sydd o leiaf yn gyfwerth.</p>	34	43.58%
---	---	--	----	--------

7	<p><b>Ffedereiddio</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid yw Cyngor Sir y Fflint yn ystyried ysgolion ffederal. Mae'n gweithio'n ddigon da yn Wrecsam ac mae wedi gwneud gyda Mr Ashford</li> <li>• Nid yw Awdurdod Lleol Sir y Fflint wedi rhoi anogaeth weithredol i ffedereiddio</li> <li>• Os yw Ffederasiwn yn bosibl ac yn ddymunol e.e. gyda Pharc y Llan, gellid ei orfodi os mai dyma'r datrysiad gorau i'r ddwy ysgol.</li> <li>• Pam fod Cyngor Sir y Fflint yn gwrthwynebu ffedereiddio gymaint?</li> </ul> <p><b>Adborth gan Blant a Phobl Ifanc</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hoffwn i ymuno ag Ysgol Parc y Llan oherwydd wedyn gallai ein hysgol ni aros ar agor a gallai Mr Ashford fod yn bennaeth arnom gan ei fod yn bennaeth da ac mae'n gweithio'n dda fel hyn</li> <li>• Hoffwn i pe bai'r ysgol yn cael ei uno oherwydd byddai hynny'n golygu y byddem yn gallu dal i fynd i Ysgol Llanfynydd a byddai'r cyngor yn dal i arbed arian</li> </ul>	<p>Mae ffedereiddio ysgolion yn broses gyfreithiol sy'n galluogi ysgolion i gydweithio trwy broses strwythuredig ffurfiol trwy rannu corff llywodraethu a fydd yn gwneud penderfyniadau er lles yr holl ysgolion, staff a disgyblion yn y ffederasiwn hwnnw.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno rheoliadau newydd mewn perthynas â Ffedereiddio ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 a ddaeth i rym ar 22 Mai 2014 yn rhoi effaith i bwerau Cyngorau i ffedereiddio ysgolion. (Mae gan lywodraethwyr ysgolion bwerau'n barod i ffedereiddio trwy ddewis dan ddarpariaethau a gyflwynwyd yn 2010). Mae'r bwerau hyn wedi cael eu cyfnerthu bellach yn Rheoliadau 2014.</p> <p>Roedd awgrym arall i ffedereiddio wedi cael ei awgrymu gan nifer o ymgynghoreion, yn anad neb y corff llywodraethu. Nid yw Corff Llywodraethu Ysgol Llanfynydd wedi gallu canfod ysgol neu ysgolion partneru sy'n barod i ffedereiddio gyda hwy. Nid oes llawer o obaith o ddatblygu ffederasiwn llwyddiannus heb bartner neu bartneriaid parod. Mae Llywodraethwyr Ysgol Parc Y Llan wedi cadarnhau na ydynt wedi, ac na fyddant yn, cyflwyno cynnig i ffedereiddio gydag Ysgol Llanfynydd.</p>	34	43.58%
---	--	--	----	--------

		<p>Roedd safbwynt y Cyngor yn glir yn y ddogfen ymgynghori. Ni fyddai'r opsiwn o ffedereiddio Ysgol Llanfynydd ag ysgol arall yn mynd i'r afael â lleoedd dros ben yn yr ysgol. Yng nghydestun lleoedd gwag Sir y Fflint, mae nifer sylweddol o leoedd gwag yn ei gyfanrwydd.</p> <p>Pe bai Ysgol Llanfynydd yn ffedereiddio gydag ysgol arall ni fyddai hynny'n effeithio ar y gost am bob disgybl, gan fod ysgolion ffederal yn dal i fod â chyllidebau unigol.</p> <p>Gofynnwyd i Aelodau Cabinet benderfynu, ar ôl ystyried popeth yr oeddent wedi'i glywed a'i ddarllen mewn ymateb i'r ymgynghoriad, pa un a ddylid cyhoeddi hysbysiad statudol mewn perthynas â'r cynnig i gau Ysgol Llanfynydd ai peidio.</p> <p>Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r manteision y mae trefniadau o ran pennaeth dros dro gyda'r Pennaeth yn Ysgol Parc y Llan, Treuddyn wedi'u dwyn i Ysgol Llanfynydd. Mae Llywodraethwyr Ysgol Parc y Llan, Treuddyn wedi darparu cadarnhad ysgrifenedig eu bod yn cydymdeimlo â sefyllfa'r ysgol ond eu bod wedi penderfynu peidio â chymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch ffedereiddio gydag Ysgol Llanfynydd.</p>		
--	--	--	--	--

8	<p><b>Mae sylw a wnaed gan Carwyn Jones, sef na ddylai byth gwneud penderfyniadau i gau Ysgolion ar sail yr angen i arbed arian, yn gwrthddweud sylwadau'r Cyngor</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn ystod y cyfarfod ymgynghori, tynnodd Ian Budd sylw at y gostyngiad o £52m mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus dros y tair blynedd ddiwethaf a'r heriau o ran cyllid. Dyma oedd eich rhesymeg dros gynnig cau'r ysgol.</li> <li>• Cyfarfu Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru, â dau lywodraethwr yn ddiweddar a dywedodd wrthynt na ddylid byth gwneud penderfyniadau i gau ysgolion ar sail yr angen i arbed costau</li> <li>• Roedd y Gweinidog wedi'i synnu o ddifrif bod swyddogion addysg Sir y Fflint yn datgan yn agored bod a wnelo hyn yn gyfan gwbl ag arbed costau</li> </ul>	<p>Cafodd y cynnig i gau Ysgol Llanfynydd ei gyflwyno gerbron ar sail meini prawf a nodir yn Strategaeth Foderneiddio'r Cyngor, sef:-</p> <p>Lleoedd heb eu llenwi ar draws y portffolio ysgolion cynradd:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Yn seiliedig ar ffigyrau mis Ionawr 2015 (CYBLD) roedd gan Ysgol Llanfynydd 42 o ddisgyblion llawn-amser ac roedd 47.5% o'r lleoedd heb eu llenwi. Ym mis Medi 2015 roedd gan yr ysgol 34 o ddisgyblion llawn-amser ac roedd 57.5% o'r lleoedd heb eu llenwi.</li> <li>2. Y meini prawf mewn perthynas ag adnoddau'n lleihau (h.y. ysgolion yn cael eu cefnogi gan ddisgyblion nad ydynt o'r gymuned leol a/neu niferoedd bychain o fewn y gymuned yn codi pryderon ynghylch cynaliadwyedd o fewn y portffolio ysgolion); i 44% o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Llanfynydd, nid hon yw eu hysgol agosaf, a hefyd</li> <li>3. Y meini prawf mewn perthynas ag Ysgolion Bychain – Mae maint a chapasiti Ysgol Llanfynydd yn llai na'r dynodiad cenedlaethol ar gyfer ysgol fechan, ac nid yw niferoedd yr ysgol yn ateb lleiafswm y gofynion yn y modelau ar gyfer ysgolion cynradd fel a nodir yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion y Cyngor.</li> </ol>	34	43.58%
---	--	--	----	--------

		<p>Mae hyn yn arwain at gostau uwch am bob disgybl; costau adeiladau, costau arweinyddiaeth a chostau gweinyddol di-angen. Bydd y cynnig yn galluogi'r Cyngor i ganolbwyntio ar y gwariant yn yr ystafell ddosbarth ar adeg pan fydd cyllidebau ysgolion yn lleihau bob blwyddyn hyd y gellir rhagweld.</p> <p>Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb statudol i adolygu'r ddarpariaeth addysgol o fewn ei ardal er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio mewn ffordd effeithiol ac effeithlon, gyda ffocws ar gyfeirio adnoddau er budd y dysgu a'r addysgu ar gyfer disgyblion. Mae cynllunio darpariaeth addysgol yn effeithiol yn ei gwneud yn bosibl ailgyfeirio adnoddau i roi cymorth i ddarparu cyfleusterau newydd.</p>		
9	<p><b>Effaith ar Draffig a Chludiant</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Roedd pobl newydd o'r ardal yn cael cludiant am ddim i Ysgol Abermorddu ac nid Ysgol Llanfynydd – mae hyn wedi cael sgîl effaith</li> <li>• Hyd at ryw chwe blynedd yn ôl roedd cludiant yn cael ei ddarparu o Gymau i Ysgol Llanfynydd. Mae tynnu'r cludiant hwn i Abermorddu yn ôl yn amlwg wedi golygu bod mwy o blant wedi symud o Ysgol Llanfynydd i Ysgol Abermorddu</li> <li>• Yn Abermorddu mae traffig eisoes yn beryglus iawn yn yr ardal cyn ac ar ôl ysgol</li> <li>• Os yw disgyblion yn cael eu cludo i Abermorddu dim ond cynyddu nifer y cerbydau fydd hyn yn ei wneud</li> <li>• Byddai hyd y siwrneiau'n achosi anawsterau mawr i lawer o</li> </ul>	<p>Mae'r Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd wedi cwblhau asesiad Gorchymyn Rheoli Traffig ar gyfer darparu llinellau melyn dwbl o amgylch Ysgol Gynradd Abermorddu ac mae'r ysgol ar y rhestr flaenoriaeth ar gyfer asesiad er mwyn cwblhau'r gwaith hwn yn amodol ar argaeledd cyllid. Yn ogystal, mae cais wedi'i wneud i adran Perfformiad Technegol Strydwedd ar gyfer dilyniant goleuadau traffig i aros ar wyrdd am fwy o amser, i ganiatáu i draffig ysgol adael o gwmpas yr ysgol yn ystod amseroedd agor a chau yr ysgol, i gynorthwyo gyda llif y traffig. Mae'r cais hwn yn cael ei adolygu gan Strydwedd ar hyn o bryd.</p>	32	41.02%



	<p>blant</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd y pellter y bydd yn rhaid i ddisgyblion ei deithio i ysgolion eraill yn eu rhoi dan anfantais a gallai hyn effeithio ar eu perfformiad yn y dyfodol</li> </ul>	<p>Mae'r ddogfennaeth Ymgynghori'n cydnabod y byddai'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn Ysgol Llanfynydd yn gorfod teithio'n bellach o'u cyfeiriad cartref i'r ysgol arall, ac na fyddent yn gallu defnyddio llwybrau cerdded o fewn y pentref, oherwydd ei lleoliad gwledig.</p> <p>Fodd bynnag, ni fyddai'r cynnydd mewn amser teithio'n fwy na'r hyn a nodir yn y canllawiau teithio gan ddysgwyr.</p> <p>Caiff cymhwysra ar gyfer cludiant ei bennu gan y Cyngor y mae'r disgybl yn byw yn ei ardal. Byddai gan 17 o ddisgyblion sy'n byw yn Sir y Fflint hawl i gludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol yn seiliedig ar y dybiaeth a'r model bod disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Parc y Llan, Treuddyn (yr ysgol agosaf sydd ar gael) ar y sail y meini prawf canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod yr ysgol briodol agosaf sydd ar gael fwy na 2 filltir i ffwrdd;</li> <li>• Y byddai'r Cyngor yn ystyried bod y llwybr i'r ysgolion eraill yn beryglus oherwydd eu lleoliad gwledig sydd â nifer cyfyngedig o lwybrau troed i mewn ac allan o'r pentref.</li> </ul> <p>Ysgol Gynradd Abermorddu yw'r ysgol gynradd agosaf at ardal Cymau, ac ystyrir hefyd bod y llwybr o Gymau i Ysgol Gynradd Abermorddu yn beryglus. O ganlyniad, mae disgyblion yn gymwys i gael cludiant o'r cartref i'r ysgol. Os bydd disgyblion Cymau yn penderfynu mynd i Ysgol Llanfynydd, ni fyddant yn gymwys i gael cludiant</p>		
--	---	--	--	--

		<p>o'r cartref i'r ysgol am y rheswm y byddant yn mynd heibio eu hysgol agosaf.</p> <p>Amcangyfrifir mai £16,150 fyddai'r costau blynyddol uchaf o ganlyniad i'r cynnig. Fodd bynnag, model dangosol oedd hwn. Dim ond unwaith y bydd yr holl deuluoedd wedi dewis yr ysgol a ffeirir ganddynt y gall y costau cludiant gwirioneddol gael eu hasesu'n llawn.</p> <p>Mae'n ofynnol i'r Cyngor sicrhau 1) ei fod yn darparu cludiant yn unol â rheolau statudol a'i bolisi ei hun a 2) bod trefniadau cludiant yn cael eu comisiynu yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr Llywodraeth Cymru.</p>		
<b>10</b>	<p><b>Trefniadau Derbyn a Phontio</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid oes cynlluniau pendant yn eu lle i gadarnhau i ba ysgol neu ysgolion y bydd y disgyblion hyn yn cael eu trosglwyddo</li> <li>• Ni ddylai rhieni fod yn gyfrifol am ddod o hyd i leoedd i'w plant; dylai Cyngor Sir y Fflint a'r tîm derbyn i ysgolion fod yn rhoi mwy o gymorth gyda hyn</li> <li>• Mae'r cod statudol yn datgan bod yn rhaid i'r Cyngor lleol sy'n cynnig cau ysgol gynnwys trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion i'r ysgol arall arfaethedig yn y cynnig hwnnw – nid yw hyn wedi cael ei wneud</li> <li>• Nid yw'r trefniadau derbyn yn yr adroddiad yn cael eu hegluro mewn ffordd a fyddai'n ddefnyddiol i rieni ac maent wedi'u cynnwys fel ail-ddatganiad syml o bolisi cyffredinol Cyngor Sir y Fflint ar gyfer derbyn disgyblion i ysgolion</li> <li>• Nid ydych yn rhoi llawer o amser i ni ddod o hyd i ysgol briodol</li> </ul>	<p>Mae'r Cyngor yn fodlon ei fod wedi bodloni'r gofynion o ran ymgynghori a chyhoeddi yn y Cod.</p> <p>Cafodd y trefniadau ar gyfer derbyn i'r ysgol arall eu darparu yn y ddogfen ymgynghori yn adran 18 ar dudalen 68.</p> <p>Mae'r wybodaeth am Dderbyn i ysgolion ar gael ar wefan y Cyngor hefyd trwy ddilyn y ddolen ganlynol:  <a href="http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Schools/School-Admissions.aspx">http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Schools/School-Admissions.aspx</a></p> <p>Cafodd cyngor a gwybodaeth am dderbyn i ysgolion eu darparu'n llawen ar gyfer rhieni ar gais. Roedd unrhyw gyngor a roddwyd yn gyson â'r Cod Derbyn i Ysgolion a pholisi'r Cyngor ar dderbyn i ysgolion. Mae Tîm Derbyn y Cyngor</p>	<b>31</b>	<b>39.74%</b>

	<p>i'n plant</p>	<p>wedi ymateb i lawer o geisiadau gan rieni am gyngor er mwyn rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl i rieni. Mewn achosion unigol mae'r holl opsiynau wedi cael eu harchwilio a chyngor priodol wedi cael ei roi. Lle mae ceisiadau wedi dod i law, mae lleoedd eraill wedi cael eu dyrannu yn unol â'r polisi derbyn.</p> <p>Bydd proses dderbyn fechan yn cael ei gweinyddu er mwyn cynorthwyo teuluoedd gyda'r broses o bontio i ysgol arall os bydd y Cabinet yn penderfynu cau'r ysgol.</p> <p>Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda rhieni Ysgol Llanfynydd i sicrhau bod y cynnig yn tarfu gyn lleied â phosibl ar ddisgyblion a fyddai'n trosglwyddo i ddarpariaeth arall.</p> <p>Mae'r amserlen statudol yn cydymffurfio â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae'r amserlen yn caniatáu digon o amser i rieni/gofalwyr a disgyblion ddewis ysgol arall ac yn ei gwneud yn bosibl pontio'n effeithiol os bydd Ysgol Llanfynydd yn cau.</p>		
<p><b>11</b></p>	<p><b>Roedd y Broses Ymgynghori'n ddiffygiol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Cyngor wedi cael 174 o ymatebion sy'n gwrthwynebu cau Ysgol Llanfynydd. A yw wedi gwrando ar yr ymatebion hyn?</li> <li>• Dylai unrhyw awdurdod cyhoeddus y mae'n ofynnol iddo ymgynghori wneud hynny â meddwl agored a dylai fod yn fodlon gwrando ar yr ymatebion y mae'n eu cael a'u hystyried</li> </ul>	<p>Mae'r Cyngor yn fodlon ei fod wedi bodloni'r gofynion o ran ymgynghori a chyhoeddi yn y Cod.</p> <p>Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, mae'n rhaid i Aelodau Cabinet aros yn wrthrychol wrth wneud penderfyniadau. Barn y Cyngor yw bod trafodaethau ynghylch y cynnig hwn wedi bod yn agored ac yn onest. Mae'r holl sylwadau a wnaed</p>	<p><b>27</b></p>	<p><b>34.61%</b></p>

	<p>o ddifrif</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Roedd awdur yr adroddiad gwreiddiol naill ai wedi cael cyfarwyddyd i gyfiawnhau cau'r ysgol neu roedd eisoes wedi ffurfio'r farn honno ac yn amharod i gynnwys nodweddion cadarnhaol ar yr ysgol</li> <li>• Nid yw'r adroddiad ymgynghori'n ymateb i faterion a godwyd yn ystod y broses ymgynghori</li> <li>• Ni roddodd cyfarfod y Cabinet ar ôl yr ymgynghoriad sylw i bryderon pawb a ymatebodd, dim ond cwestiynau gan y Cabinet yr ymatebwyd iddynt</li> <li>• Mae'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion gan ei fod wedi methu â dilyn y cod trwy wyro oddi wrth ofynion y Cod wrth lunio'r adroddiad ymgynghori, 'ymateb i'r rhain ar ffurf esboniad, diwygiad i'r cynnig neu wrthod y pryderon, gan nodi rhesymau i gefnogi hynny'</li> <li>• Fel aelod o staff nid wyf wedi cael unrhyw ohebiaeth uniongyrchol ffurfiol trwy gydol y broses ymgynghori</li> <li>• A yw Cyngor Sir y Fflint yn wir wedi ystyried y dewisiadau eraill yn lle cau'r ysgol</li> <li>• Mae'r ddogfen ymgynghori'n camddyfynnu o'r Cod ac nid yw'n datgan y bydd y Cyngor yn 'ymateb i'r rhain ar ffurf esboniad, diwygiad i'r cynnig neu wrthod y pryderon, gan nodi rhesymau i gefnogi hynny'.</li> </ul> <p><b>Adborth gan Blant a Phobl Ifanc</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dydw i ddim yn meddwl bod digon o ystyriaeth wedi cael ei roi</li> </ul>	<p>yn arwain at drafodaeth drylwyr a chadarn ynghylch y cynnig a chafodd Aelodau Cabinet eu hysbysu'n llawn ynghylch y materion cyn iddynt wneud eu penderfyniad.</p> <p>Cafodd penderfyniadau'r Cabinet eu gwneud trwy broses ddemocrataidd.</p> <p>Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â'r Pennaeth, yr Ysgol, Athrawon a Staff Cymorth trwy gydol y broses, gan gynnwys y cymorth a gynigiwyd trwy'r tîm Adnoddau Dynol. Trefnwyd cyfarfod hefyd yn benodol ar gyfer staff ar 23 Tachwedd 2015 i drafod y cynnig a'r broses. Mae Tîm Partner Busnes yr Adran Adnoddau Dynol wedi cynnig cyfarfodydd unigol hefyd pe bai staff yn dymuno trafod unrhyw bryderon.</p> <p>Mae'r adroddiad ymgynghori'n cynnwys crynodeb ym mhrif destun yr adroddiad o'r holl faterion a godwyd gan ymgynghoreion, ac ymateb i'r rhain ar ffurf esboniad, diwygiad i'r cynnig (amherthnasol) neu wrthod y pryderon, gan nodi rhesymau i gefnogi hynny – cyfeirir at Atodiad E yn yr adroddiad ymgynghori.</p>		
12	<p><b>Nid yw datblygiadau tai wedi cael eu cymryd i ystyriaeth</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd niferoedd yr aelwydydd yn tyfu yn yr ardal</li> <li>• Cynigir adeiladu llawer o gartrefi newydd yng Nghoed Talon</li> </ul>	<p>Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth lawn i gapasiti ysgolion yn yr ardal ynghyd â nifer y disgyblion a allai ddeillio o ddatblygiadau tai o fewn ei ddogfennau ymgynghori.</p>	21	26.92%

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae tir wedi'i ddnodi dan y Cynllun Datblygu Lleol yn Llanfynydd; pe bai'r cartrefi hyn yn cael eu hadeiladu byddai cystadleuaeth am leoedd yn yr ysgol ym Mharc Y Llan</li> <li>• Mae'r ddogfen ymgynghori'n datgan y bydd nifer y disgyblion a fydd yn deillio o ddatblygiadau tai yn is o lawer nag a fydd mewn gwirionedd</li> <li>• Os bydd Cyngor Sir y Fflint yn gwerthu Ysgol Llanfynydd ar gyfer datblygu tai yn yr ardal, fel sy'n debygol iawn, bydd yr ardal yn wynebu amgylchiadau anffodus lle bydd angen cyfleusterau ysgol o ansawdd da</li> <li>• Mae'r ddogfen yn methu ag ystyried y Cynllun Datblygu Lleol presennol gan gynnwys datblygiadau yn Nhreuddyn (6 Safle), Llanfynydd (1 safle), Cymau (1 Safle), Abermorddu (1 Safle), Caergwrle (8 Safle), Yr Hob (6 Safle)</li> </ul>	<p>Caiff data ynghylch disgyblion posibl a allai ddeillio o ddatblygiadau tai newydd ei gyfrifo gan ddefnyddio fformwla cynnyrch tai. Mae'r fformwla cynnyrch tai wedi cael ei ddeillio o waith ymchwil sy'n seiliedig ar ddata'r Cyfrifiad cenedlaethol gan awdurdod partner. Cafodd hwn ei gymhwyso i bob cais cynllunio ar gyfer datblygu tai sydd wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio ar hyn o bryd. Nid yw'r Cyngor yn cynnwys safleoedd sydd yn y Cynllun Datblygu Lleol am nad oes ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygu tai wedi'i cymeradwyo ar eu cyfer.</p> <p>Mae'r ffigyrau cynnyrch tai a gyfrifwyd yn ffigwr uchaf posibl ac nid ydynt yn ystyried dewis rhieni a/neu symudiadau gan ddisgyblion, h.y. disgyblion sy'n symud i gartrefi newydd ond sydd eisoes yn y gyfundrefn addysg leol. Hefyd, nid oes gwarant y byddai'r holl ddisgyblion hyn yn defnyddio'r ddarpariaeth yn Ysgol Llanfynydd oherwydd dewis rhieni o ran darpariaeth ysgol yn yr ardal, gan gynnwys ffydd a chyfrwng iaith.</p> <p>Bydd ffactorau'n cyfyngu ar gyflymder datblygiadau tai, gan gynnwys cynlluniau perchnogion/datblygwyr y safle, y farchnad dai, yr hinsawdd economaidd ar y pryd a ffactorau eraill na ellir eu rhagweld.</p> <p>Barn y Cyngor yw bod digon o gapasiti o fewn y rhwydwaith ysgolion lleol i dderbyn disgyblion o Ysgol Llanfynydd pe bai'n cau. Mae Estyn wedi</p>		
--	--	---	--	--

		<p>gwneud y sylw canlynol:  <i>‘Yn seiliedig ar geisiadau cynllunio sydd wedi’u cymeradwyo ar gyfer datblygiadau tai newydd o fewn dalgylchoedd y pedair ysgol, mae’r cynigwyr yn rhagweld y bydd angen 15 o leoedd cynradd ychwanegol. Mae’r ffigyrau hyn, pan gânt eu hychwanegu at y disgyblion yn Ysgol Llanfynydd, yn dal i ddangos bod capasiti o fewn y pedair ysgol bresennol i reoli’r cynnydd hwn yn y galw am leoedd mewn ysgolion.’</i></p> <p>Nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau ar gyfer y safle, ac ni fydd yn ystyried dyfodol y safle nes bod penderfyniad wedi’i wneud ynglŷn â dyfodol yr ysgol.</p>		
13	<p><b>Roedd proses yr Hysbysiad Statudol yn ddiffygiol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae’r cod statudol yn datgan y dylai hysbysiad gynnwys manylion unrhyw fesurau eraill y cynigir eu cymryd i gynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion sydd ar gael o ganlyniad i gau’r ysgol hon ac ni wnaed hynny</li> <li>• Ni roddwyd yr hysbysiad statudol i’r Llywodraethwyr tan ddydd Llun 1 Chwefror</li> <li>• Ni chyflwynwyd yr hysbysiad statudol yn bersonol na thrwy’r e-bost yn uniongyrchol i’r Corff Llywodraethu</li> </ul>	<p>Mae’r Cyngor yn fodlon bod y gofynion yn y Cod ar gyfer cyhoeddi’r Hysbysiad Statudol wedi cael eu hateb.</p> <p>Cafodd yr hysbysiad statudol ei ddarparu’n uniongyrchol trwy’r e-bost ar gyfer Pennaeth yr ysgol ac i gyfrif e-bost generig yr ysgol, a reolir gan ysgrifenyddes yr ysgol. Mae hwn yn ddull gweinyddol y mae’r Cyngor wedi’i ddefnyddio; nid yw manylion cyswllt unigol ar gyfer Llywodraethwyr yn cael eu dal gan y Tîm Moderneiddio Ysgolion. Anfonwyd y ddolen at y Pennaeth ac i gyfrif e-bost generig yr ysgol a rhoddwyd cyfarwyddyd iddynt wneud eu rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid/disgyblion/llywodraethwyr/Cyngor Ysgol/Aelodau o Staff a darpar rieni’n ymwybodol o’r ddolen ac fe’u hysbyswyd hefyd fod copïau caled ar gael ar gais.</p>	21	26.92%

		<p>Gosodwyd copi caled o'r hysbysiad statudol wrth fynedfa flaen yr ysgol ar y diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol – dydd Gwener 29 Ionawr 2016.</p> <p>Cafodd y Llywodraethwyr gopi o'r hysbysiad statudol trwy law'r Ysgol ac maent hefyd wedi cael y cyfle i gyflwyno'u gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig yn unol â'r Cod. Mae Cadeirydd Llywodraethwyr yr Ysgol wedi darparu gwrthwynebiad ar ran holl Lywodraethwyr yr Ysgol. Hefyd, mae nifer o Lywodraethwyr wedi cyflwyno'u gwrthwynebiadau unigol hwy eu hunain i'r cynnig.</p> <p>Mae'r Cyngor yn cynnig y gall disgyblion presennol fynychu naill ai Ysgol Parc y Llan, Treuddyn sy'n ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg, neu Ysgol Gynradd Gymunedol Abermorddu, sy'n ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg, neu Ysgol Estyn, Yr Hob, sy'n ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg, neu Ysgol Gynradd Gymunedol Bwlchgwyn, sy'n ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg. Fodd bynnag, mae hyn yn amodol ar ddewis rhieni ac yn amodol ar y lleoedd sydd ar gael. Gall rhieni fynegi dewis o blaid yr ysgolion dywededig neu yn wir ysgol arall a bydd y Cyngor yn cydymffurfio ag unrhyw ddewis o'r fath a fynegir yn amodol ar Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Adran 86(3).</p> <p>Nid yw'n ofynnol cymryd unrhyw fesurau i</p>		
--	--	---	--	--

		<p>gynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion sydd ar gael o ganlyniad i gau Ysgol Llanfynydd a nodi hynny yn y cynnig. Mae'r Cyngor wedi dangos yn ei ddogfennau ymgynghori bod digon o gapasiti o fewn y rhwydwaith ysgolion lleol i dderbyn disgyblion o Ysgol Llanfynydd os bydd yn cau, ac mae'r farn hon wedi cael ei chadarnhau gan Estyn.</p> <p>Os bydd angen, gellir sefydlu lleoedd ychwanegol yn Ysgol Parc Y Llan, Treuddyn os bydd y disgyblion yn dymuno symud fel grŵp.</p> <p>Pe bai angen gwneud unrhyw addasiadau i'r manau dysgu, byddai hyn yn ddibynnol ar niferoedd a threfniadaeth grwpiau blwyddyn y byddai disgyblion yn cael eu trosglwyddo ynddynt pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.</p> <p>Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda rhieni Ysgol Llanfynydd i sicrhau bod y broses o drosglwyddo i ddarpariaeth arall yn tarfu gyn lleied â phosibl ar y disgyblion dan sylw.</p> <p>I gadarnhau, gall rhieni/gofalwyr nodi y byddai'n well ganddynt i'w plentyn fynd i'r ysgol hon, neu unrhyw ysgol arall yn wir, a bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'u dymuniadau'n amodol ar Ddeddf Fframwaith Safonau Ysgolion 1998, Adran 86 (3).</p>		
<b>14</b>	<b>Effaith ar Blant</b>	Wrth gynnig newidiadau i drefniadaeth ysgolion cydnabyddir y bydd rhai newidiadau i ddisgyblion.	<b>11</b>	<b>14.10%</b>



	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd y pellter y bydd yn rhaid i ddisgyblion ei deithio i ysgolion eraill yn achosi anfantais iddynt a gallai effeithio ar eu perfformiad mewn blynyddoedd yn y dyfodol</li> <li>• Bydd grwpiau o ffrindiau'n cael eu gwahanu</li> <li>• Bydd yr effaith ar ddysgwyr yn cael ei hachosi er mwyn creu arbedion ariannol bychain</li> <li>• Mae'n amlwg nad yw'r cynnig i gau'r ysgol yn cyd-fynd â'r hyn sydd orau er lles disgyblion</li> <li>• Mae'r cynnig yn anghofio effaith ddynol y newidiadau hyn a'r ansicrwydd a brofir gan blant bach</li> <li>• Nid oes llawer o dystiolaeth o ofal am ddyfodol agos y plant</li> <li>• Bydd yn cael effaith niweidiol ar ddysgu a datblygiad fy mhlentyn</li> <li>• Byddai fy mhlant yn torri eu calonnau</li> </ul>	<p>Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu ac Ysgol Llanfynydd yn cael ei chau byddai'n arwain at newidiadau i'r disgyblion presennol megis:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Amser teithio byrrach i ddisgyblion sy'n byw yn Wreccsam</li> <li>• Llwybr teithio i'r ysgol sydd ychydig bach yn hirach ar gyfer disgyblion sy'n byw yn ardal Llanfynydd</li> <li>• Gwisg ysgol newydd</li> <li>• Athrawon a staff cymorth newydd</li> <li>• Amgylchedd dysgu newydd</li> <li>• Gallai'r newidiadau effeithio ar grwpiau o ffrindiau; fodd bynnag gall grwpiau newydd o ffrindiau gael eu ffurfio.</li> </ul> <p>Bydd y Cyngor yn cymryd pob cam ymarferol i sicrhau proses bontio esmwyth ar gyfer yr holl ddisgyblion, yn fwyaf arbennig ar gyfer grwpiau o ddysgwyr agored i niwed megis rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r Cyngor yn gweithio ochr yn ochr â'r disgyblion, eu rhieni, a'r ysgolion perthnasol i wneud trefniadau pontio priodol er mwyn i'r disgyblion ymgylcheddau hamgylchedd newydd (yn amodol ar ddewis rhieni).</p> <p>Lle mae gan ddisgyblion ADY penodol, byddai'r un adnoddau a chymorth yn cael eu darparu ar ei cyfer yn eu hamgylcheddau dysgu newydd.</p> <p>Ar adeg paratoi'r ddogfen ymgynghori, dan y</p>		
--	---	--	--	--

		<p>polisi cludiant presennol byddai gan 17 o ddisgyblion hawl i gludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol. Byddai hyn ar sail y ffaith bod y llwybr i'r ysgol arall o Lanfynydd yn cael ei ystyried yn lwybr peryglus oherwydd y lleoliad gwledig sydd â llwybrau troed cyfyngedig i mewn ag allan o'r pentref.</p> <p>Mae'n ofynnol i'r Cyngor sicrhau 1) ei fod yn darparu cludiant yn unol â rheolau statudol a'i bolisi ei hun a 2) bod trefniadau cludiant yn cael eu comisiynu yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr Llywodraeth Cymru.</p> <p>Mae adolygu dyfodol unrhyw ysgol yn ddadleuol ac yn gynhyrfiol. Mae gan ddisgyblion, rhieni, gofalwyr ac athrawon, yn rhai blaenorol a phresennol, gysylltiadau cryf ag ysgolion lleol fel rhan o'u hanesion bywyd eu hunain.</p> <p>Mae adolygu dyfodol unrhyw ysgol yn ddadleuol ac yn gynhyrfiol. Mae gan ddisgyblion, rhieni, gofalwyr ac athrawon, yn rhai blaenorol a phresennol, gysylltiadau cryf ag ysgolion lleol fel rhan o'u hanesion bywyd eu hunain.</p> <p>Mae'r Cyngor yn wynebu her i daro cydbwysedd rhwng sensitifrwydd teimlad y gymuned ar y naill law, a darparu addysg o safon uchel y gellir ei chynnal a'i fforddio ar y llaw arall. Ni all y Cyngor osgoi gwneud penderfyniadau ar gyfer y dyfodol sydd er lles disgyblion a myfyrwyr.</p>		
--	--	---	--	--

		<p>Mae'r Cyngor wedi gwneud trefniadau digonol i sicrhau bod lles y disgyblion yn cael ei sicrhau yn ystod y broses hon. Mae hyn wedi cynnwys cynhyrchu fersiwn o'r ddogfen ymgynghori sy'n addas i blant a phobl ifanc, y mae nifer o ddisgyblion wedi ymateb iddi. Ar y cyd ag Ysgol Llanfynydd, fe hwylusodd y Cyngor sesiwn ymgynghori ar gyfer Cyngor Ysgol Llanfynydd a'u galluogodd i gyflwyno'u barn ynglŷn â'r cynnig. Fe gynhyrchodd y Cyngor adroddiad ar gyfer y Cabinet ac ymgynghoreion hefyd a oedd yn crynhoi safbwyntiau a gasglwyd gan blant a phobl ifanc yn ystod y cyfnod ymgynghori. Hefyd, fe gynhyrchodd y Cyngor grynodedeb o'u barn mewn adroddiad a oedd wedi'i fwriadu'n benodol ar gyfer plant a phobl ifanc.</p> <p>Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda rhieni Ysgol Llanfynydd i sicrhau bod y broses o drosglwyddo i ddarpariaeth arall yn tarfu gyn lleied â phosibl ar y disgyblion dan sylw.</p>		
15	<p><b>Cysylltiadau teuluol â'r ysgol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Fe es i a 5 o frodyr a chwiorydd i'r ysgol hon yn y 1960au ac mae rhai o'm nithod a'm neiaint wedi bod i'r ysgol ers hynny</li> <li>• Mae'r ysgol wedi cael ei defnyddio am flynyddoedd lawer gan genedlaethau o blant yn y pentref hwn</li> <li>• Mae fy nheulu wedi bod yn mynychu'r ysgol hon am flynyddoedd</li> <li>• Byddai'n torri fy nghalon pe na bai'r ysgol hon ar gael i mi anfon fy mhlant iddi</li> </ul>	<p>Mae adolygu dyfodol unrhyw ysgol yn ddadleuol ac yn gynhyrffiol. Mae gan ddisgyblion, rhieni, gofalfwyr ac athrawon, yn rhai blaenorol a phresennol, gysylltiadau cryf ag ysgolion lleol fel rhan o'u hanesion bywyd eu hunain. Mae'r Cyngor yn wynebu her i daro cydbwysedd rhwng sensitifrwydd teimlad y gymuned ar y naill law, a darparu addysg o safon uchel y gellir ei chynnal a'i fforddio ar y llaw arall. Ni all y Cyngor osgoi gwneud penderfyniadau ar gyfer y dyfodol sydd er lles disgyblion a myfyrwyr ledled Sir y Fflint.</p>	11	14.10%

16	<p><b>Arbedion/Y Gyllideb/Cyllid</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai cyfrifiadau blaenorol o ran gwerth am arian yn cael eu negyddu pe baech yn cau'r ysgol ar ôl yr arian a fuddsoddiwyd ynddi.</li> <li>• Mae'r arbedion cyllidebol a fydd yn cael eu creu trwy gau'r ysgol yn seiliedig ar gostau damcaniaethol atgyweirio to</li> <li>• Efallai y bydd cau'r ysgol yn dwyn arbedion ariannol bach iawn yn y gyllideb addysg yn y tymor byr ond gallai arwain at gostau mwy o lawer ar y cyfan yn y tymor hir</li> <li>• Nid yw'n ymddangos bod costau colli swyddi wedi cael eu cynnwys</li> <li>• Tybed faint o arian sydd wedi cael ei ddefnyddio i ariannu prosiectau eraill yn y gorffennol</li> <li>• Roedd corff llywodraethu Ysgol Llanfynydd yn gyff gwawd gan uwch bersonél y gwasanaeth addysg pan awgrymon ni y gallem ddod o hyd i arbed arian trwy leihau ein cyllideb</li> <li>• Efallai y dylai Cyngor Sir y Fflint ystyried lleihau nifer y bobl y mae'n eu cyflogi fel staff gweinyddol</li> <li>• Nid yw'r cynnig yn nodi a fydd yr elw a geir o werthu safleoedd segur yn cwrdd â chostau'r cynnig</li> <li>• Mae Prif Weinidog Cymru wedi ei gwneud yn glir (cyfweliad ar y teledu ar 17 Chwefror) bod Awdurdodau wedi cael arian ychwanegol i gefnogi ysgolion gwledig. I ble mae'r arian hwn wedi mynd yn Sir y Fflint?</li> <li>• Nid yw'r costiau wedi'u nodi'n glir yn y ddogfen ymgynghori yng nghyd-destun adroddiad Estyn a gyhoeddwyd ym mis Mai</li> </ul>	<p>Gall trefniadaeth ysgolion aneffeithlon arwain at batrymau ariannu anwastad ac annheg lle mae rhai ysgolion yn cael cyfran anghymesur o'r cyllid ar draul disgyblion sy'n mynychu ysgolion eraill yn yr ardal, yn bennaf ysgolion sy'n cael eu cyfrif yn ysgolion bychain. Dylai unrhyw gynigion ar gyfer ysgolion gyfrannu at sefydlu patrwm mwy teg o ran cyllid ar gyfer ysgolion.</p> <p>Y unol â gofynion rheoleiddiol, mae gan Gyngor Sir y Fflint fformwla cyllid, sef y fethodoleg a ddefnyddir i bennu'r gyfran o'r gyllideb ar gyfer pob ysgol yn y Sir. Bob blwyddyn mae'r fformwla'n cael ei adolygu ac, ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol, mae diwygiadau'n cael eu gwneud i adlewyrchu newidiadau yn y cyllid ac mewn polisi. (Anfonir y fethodoleg fanwl a'r cyfrannau o'r gyllideb at yr holl ysgolion ac fe gyhoeddir crynodeb mewn datganiad y cyfeirir ato fel datganiad ar y gyllideb dan adran 52).</p> <p>Mae ysgolion yn cael cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol o fis Ebrill tan fis Mawrth, ac mae hyn yn seiliedig ar y disgyblion ym mhob ysgol ym mis Medi cyn y flwyddyn ariannol. Mae datganiad cyllideb 2015/16, adran 52, wedi cael ei ddefnyddio fel sail dadansoddi.</p> <p>Cafodd fformiwla ariannu ysgolion cynradd eu hadolygu i ddechrau yn 2013/14, gyda chyfranogiad ac ymgynghoriad llawn ag ysgolion</p>	10	12.82%

2012 mewn perthynas â'r gost ar y cyfan i'r Sir os yw'n cau neu'n peidio â chau Ysgol Llanfynydd

### **Adborth gan Blant a Phobl Ifanc**

- Rydw i'n meddwl fod gan y Cyngor fwy o ddiddordeb mewn arbed arian na rhoi addysg dda i ni a dywedodd Gweinidog Cymru na ddylai hynny ddigwydd

a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Fforwm Cyllideb Ysgolion a Phwyllgor Craffu Addysg ac Ieuenctid. Mae'n rhaid i'r fformiwla gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob ysgol, gan ymgynghori a chytuno ar unrhyw newidiadau i'r fformiwla. Mae grŵp fformiwla ariannu ysgolion cynradd sy'n cynnwys swyddogion yr Awdurdod a Phenaethiaid enwebedig sy'n cyfarfod yn rheolaidd i ystyried materion fformiwla. Un pryder parhaus allweddol gan ysgolion cynradd bach fu sicrhau adnoddau digonol er mwyn galluogi i arweinyddion ysgolion gyflawni eu cyfrifoldebau.

Yn 2015-2016 cafodd Ysgol Llanfynydd ddyraniad cyllid fformwla o £217,715 sy'n cyfateb i £4,838 y disgybl, gan olygu mai'r ysgol hon sy'n cael y mwyaf o gyllid am bob disgybl yn Sir y Fflint, a hithau'n cael £1,569 yn fwy o gyllid na'r cyfartaledd am bob disgybl yn Sir y Fflint. Mae'r lefel uwch o gyllid am bob disgybl yn adlewyrchu'r angen i gymorthdalau ysgolion bychain trwy gynnwys llymp-symiau o fewn y fformwla cyllid ac mae hefyd yn adlewyrchu'r costau premiwm uwch am bob disgybl mewn ysgolion llai.

Byddai'r costau colli swyddi'n cael eu cyfrifo pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i gau'r ysgol ac wedi i ddyddiad ar gyfer terfynu cyflogaeth gael ei gadarnhau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu bod cyllid ychwanegol ar gael i dri awdurdod gwledig – Sir Fynwy, Powys a Cheredigion. Cyfeiriodd y

		<p>Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth at hyn yn ei chyhoeddiad ar y Gyllideb Ddrafft ar 9 Chwefror ac er nad cyllid ar gyfer addysg yn benodol ydyw, gallai'r cyllid ychwanegol ar gyfer yr awdurdodau gwledig hynny gael ei wario ar ysgolion.</p> <p>Mae'r Cyngor yn fodlon bod y gofynion yn y Cod ar gyfer cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol wedi cael eu hateb.</p> <p>Nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau ar gyfer y safle, ac ni fydd yn ystyried dyfodol y safle nes bod penderfyniad wedi'i wneud ynglŷn â dyfodol yr ysgol.</p> <p>Nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau ar gyfer defnyddio safle'r ysgol, ac ni fydd yn ystyried dyfodol y safle hyd nes y bydd dyfodol yr ysgol wedi'i bennu.</p> <p>Mae'r Cyngor wedi bodloni gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn ei adroddiad ar faterion ariannol. Mae'r Cod hefyd yn datgan y dylai'r Cyngor ystyried a fydd y cynigion yn sicrhau dosbarthiad tecach a mwy cyfartal o gyllid.</p> <p>Yn ogystal, mae'r Cyngor yn fodlon ei fod wedi bodloni gofynion statudol ymgynghorol a chyhoeddi'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.</p>		
17	<b>Mae rhieni'n colli eu dewis</b>	Mae'r Cyngor yn cydnabod bod nifer o ffactorau sy'n pennu ble y mae rhieni'n anfon eu	<b>6</b>	<b>7.69%</b>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>Er mwyn cadw siblingiaid a grwpiau o ffrindiau gyda'i gilydd byddai'n rhaid i ddisgyblion fynd i Ysgol Parc y Llan sy'n golygu nad oes dewis gan rieni</li> </ul>	<p>plentyn/plant. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn gallu cynnal yr holl ysgolion yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni yn enwedig pan fo nifer sylweddol o leoedd gwag o fewn y system. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai cydbwysedd o hyd o ran y ddarpariaeth yn yr ardal, gan gynnwys darpariaeth wledig, drefol, darpariaeth ar gyfer ffydd ac iaith, a chan gynnal dewis rhieni.</p> <p>Bydd yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â gofynion statudol a Chod Llywodraeth Cymru ar gyfer Derbyn i Ysgolion a bydd yn ystyried y dewis a fynegwyd gan rieni yng nghyd-destun ei ddyletswydd i sicrhau y darperir addysg effeithiol a bod adnoddau addysg yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Wrth ystyried ceisiadau, bydd yr Awdurdod Lleol yn ymlynu wrth ddarpariaethau'r Cod Derbyn i Ysgolion sy'n datgan y dylai awdurdodau lleol dderbyn disgyblion hyd at nifer derbyn yr ysgol ac mai anaml y bydd modd profi anfantais fel sail i wrthod disgybl ychwanegol os bydd y nifer yn dal islaw'r nifer derbyn.</p>		
18	<p><b>Gofal Plant</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Nid oes clwb ar ôl ysgol gan Ysgol Parc y Llan</li> <li>Er bod disgyblion o Ysgol Parc y Llan yn gallu mynychu Ysgol Terrig, mae'n cynnig cyfrwng iaith gwahanol ac fe allai hynny beri pryder i rai disgyblion</li> </ul>	<p>Mae gan Ysgol Parc y Llan glwb ar ôl ysgol. Clwb ar ôl ysgol ar y cyd ag Ysgol Terrig, Treuddyn (ysgol gymunedol cyfrwng Cymraeg), ysgol sydd wedi'i lleoli ar yr un safle ag Ysgol Parc y Llan, Treuddyn, ydyw. Mae Pennaeth Ysgol Parc y Llan, Treuddyn wedi cadarnhau mai siaradwyr Saesneg yw'r mwyafrif o'r disgyblion sy'n mynychu'r clwb. Clwb dwyieithog ydyw ac mae disgyblion yn rhyngweithio â disgyblion eraill o</p>	2	2.56%

		Ysgol Terrig, Treuddyn yn rheolaidd. Mae hyn yn gyfle unigryw i'r holl ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg		
<b>19</b>	<b>Effaith y cynigion ar niferoedd mewn ysgolion</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae cynnig cau'r ysgol wedi creu amgylchedd lle mae rhieni'n cael eu hatal rhag dewis yr ysgol leol</li> </ul>	<p>Mae'n rhaid i'r Cyngor ddilyn y broses a ddiffinnir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion.</p> <p>Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd ymgynghori statudol ynghylch newid trefniadaeth ysgolion yn achosi lefel o ansicrwydd yng nghymuned leol yr ysgol, a all fod yn ffactor sy'n cyfrannu at leihau nifer y disgyblion.</p>	<b>2</b>	<b>2.56%</b>
<b>20</b>	<b>Cynyddu Niferoedd y Disgyblion</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gallai rhywfaint o waith i farchnata'r ysgol help i gynyddu'r niferoedd a dderbynnir</li> <li>Mae'r Cyngor wedi methu â chefnogi a hyrwyddo'r ysgol hyfryd hon</li> </ul>	<p>Tair prif rôl corff llywodraethu yw</p> <p>(i) pennu nodau ac amcanion yr ysgol;</p> <p>(ii) cytuno ar bolisiau, targedau a blaenoriaethau ar gyfer cyflawni'r amcanion hyn;</p> <p>(iii) monitro a gwerthuso'r nodau a'r amcanion a pha un a yw'r polisiau, y targedau a'r blaenoriaethau'n cael eu gwireddu, gyda golwg bob amser ar hybu safonau uchel o ran cyflawniad addysgol. Cyfrifoldeb yr ysgol ei hun a'i chorff llywodraethu yw hyrwyddo'r ysgol yn weithredol.</p> <p>Mae'r Cyngor yn cefnogi pob un o'i ysgolion drwy wasanaethau cymorth.</p>	<b>2</b>	<b>2.56%</b>
<b>21</b>	<b>Sylw'n cefnogi'r Cynnig</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Hoffwn gofnodi fy nghefnogaeth lawn a digamsyniol i'r cynnig</li> </ul>		<b>1</b>	<b>1.28%</b>



## **Casgliad**

Fel a nodwyd yn ystod y broses ymgynghori, mae'n ofynnol bod y cynnig i gau Ysgol Llanfynydd o 31 Awst 2016 gyda disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion cyfagos yn cael ei gymeradwyo gan Aelodau Cabinet yr Awdurdod Lleol. Bydd yr Adroddiad Gwrthwynebu hwn, ochr yn ochr â chopi o'r holl Wrthwynebiadau, copi o'r ddogfen ymgynghori, copi o'r adroddiad ymgynghori a chopi o'r hysbysiad a gyhoeddwyd yn cael eu hanfon ymlaen at Aelodau'r Cabinet er mwyn iddynt hwy wneud penderfyniad.